# Llais yr Andes

*Papur Bro Yr Andes* *Mai 2013*

Pris: $7


**Noson Sbort Sadwrn Esquel**

Cafwyd noson hwylus iawn yn Esquel ar nos Sadwrn y 13eg o Ebrill wrth i griw o ryw ugain ohonom ni ddod at ein gilydd i fwynhau chwarae gemau dwl megis rholio lemwns ar hyd y llawr gyda phensil, canu carioci (da iawn Silvia a Clare), bwyta pot o jam llaeth mewn 30 eiliad (bu Marina a Gregorio'n ddewr iawn) a'r ffefryn, gweld Lizzie ac Amy ein gwirfoddolwraig yn stwffio malws melys (marshmallows) i'w cegau gan ddweud 'Cwningen dew'! Braf iawn oedd gweld wynebau o Drevelin yn y Ganolfan a chyffrous iawn oedd darganfod fod Amy'n perthyn i rai ohonynt!

**Noson Swshi Trevelin**

Bwyd oedd canolbwynt y weithgaredd a drefnwyd yn Nhrevelin ar nos Wener y 19eg o Ebrill – swshi blasus iawn, a diolch yn fawr iawn i Isaías Grandis am ei help llaw yn y gegin! Er nad oedd llawer yn awyddus i fwyta'u swshi ar y clustogau a osodwyd ar y llawr (ar wahân i Ivana a Llew), roedd pawb yn ysu am gael defnyddio'r gweill bwyta a phrofi'r Sake!!! Ar ôl llenwi'n boliau gyda'r swshi a llond bwrdd o gacennau bychain o bob lliw a llun, cafwyd gwers origami cyn gorffen y noson gyda thipyn o garioci! またあとで会いましょう！



Yn y rhifyn hwn:


Dathlu Dydd Gŵyl Dewi—tud. 3

Hanes cwrs Haydn Hughes gan Gladys—tud. 6

Liliana yng Nghaerdydd—tud. 8, cystadleuaeth a llawer llawer mwy!!



Eluned Owena Evans

**Gair o'r Gadair…….**

Dyma fi wedi dychwelyd i Batagonia yn barod am flwyddyn arall o waith yng nghymunedau Cymreig yr Andes. Y mae wedi bod yn hyfryd gweld wynebau cyfarwydd (ac ambell i wyneb newydd) a dw i wedi setlo'n hapus iawn yn Esquel / Trevelin sydd fel ail-gartre' i mi erbyn hyn! Y mae wedi bod yn gyfnod prysur o ddysgu, ymweld â phobl a bwyta(!) a braf yw gweld myfyrwyr a phlant sydd mor frwdfrydig dros yr iaith Gymraeg a diwylliant ein gwlad. Ar y nodyn hwn, mae'n bleser gen i gyhoeddi bod tair o Drevelin - Estela Jones, Ivana Mansilla a Sara Borda Green - wedi cael cynnig lle ar Gwrs Haf Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd rhwng dydd Llun y 1af o Orffennaf a dydd Gwener y 23ain o Awst eleni. Llongyfarchiadau gwresog i'r dair. Cewch ddarllen mwy am Sara ar dudalen 4 a chewch ddarllen hanes yr holl ddigwyddiadau diweddaraf a'r hyn sydd ar y gweill yn yr ardal rhwng cloriau'r rhifyn hwn…………felly mwynhewch!!!

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf (Gorffennaf) at Eluned - eluned@menterpatagonia.org neu elunedowena@hotmail.com erbyn canol mis Mehefin.

**Calendr**

*Nos Sul, Mai'r 5ed - Cyngerdd yng nghwmni'r 'Lighthouse Theatre' o Abertawe yn y Salón Central, Trevelin am 8 o'r gloch*

*Nos Wener, Mai'r 17eg - Cyngerdd yng nghwmni 'Hogia'r Wilber' yn y Ganolfan yn Esquel am 8 o'r gloch*

*Nos Sadwrn, Mai'r 18fed - Cyngerdd yng nghwmni 'Hogia'r Wilber' yn Nhrevelin am 8 o'r gloch*

**Cwrdd Diolchgarwch Capel Bethel Trevelin a Chapel Seion Esquel**



Trefnodd Eluned a fi gwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Bethel Trevelin ac hefyd yng Nghapel Seion Esquel yn ddiweddar. Roedd hi'n hyfryd gweld y ddau gapel wedi'u haddurno gyda rhoddion i roi diolch i Dduw am ei haelioni a'i ddaioni. Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth ddod ac a gymerodd ran a braf oedd gweld Amy ac Haydn, ein hymwelwyr o Gymru hefyd. Diolch i Eluned am ei chymorth mawr hefyd. Fe fydd yr oedfa nesa yng Nghapel Bethel cyn bo hir. Dewch i dreulio awr gyda ni yn y capel prydferth hwn yn canu'n y Gymraeg ac addoli gyda'n gilydd!



*Isaías Grandis*







## DYDD GŴYL DEWI 2013

Trefnodd Cymdeithas Gymraeg Trevelin ddathliad dydd Gŵyl Dewi gyda swper mewn bwyty moethus yn y dre a oedd wedi ei addurno yn bwrpasol.

Daeth criw da o bobol yr ardal ac Esquel i fwynhau pryd hollol Gymreig fel cawl cennin, cyw iâr gyda stwffin a thatws, a phwdin blasus i orffen.

Yr oedd yn noson hapus i groesawu Eluned Owena  Evans i'n plith hefyd, sef y tiwtor o Gymru.

Darllenodd Mary ac Eluned hanes Dewi Sant yn Gymraeg ac yn Sbaeneg, roedd mor ddiddorol fel na chofiais am gael llun!

Daeth Evelyn de Day â geiriau pwrpasol i ni ganu yn sôn am Dewi, (rhai oedd hi wedi eu canu pan oedd yn ifanc iawn gyda chôr ieuenctid  y Capel) ar dôn 'Mae popeth yn dda..' Yr oedd Arturo Lowndes yna i'n cyfeilio gyda'r 'acordión' felly aethom ymlaen gyda llawer o ganeuon  ac emynau adnabyddus.

*Mae heddiw'n Ŵyl Dewi*
*A'r Cymro yn llon*
*Yn cofio yn barchus*
*Am Dewi fab Non*
*'Rym ni yn yr ysgol*
*Yn llawen i gyd*
*Yn falch iawn o Gymru*
*Gwlad orau'n y byd.*
*Cytgan*
*Cymro wyf fi*
*A Chymro ich chwi*
*Mi fyddwn yn Gymru*
*Y wlad hardd ei fry*
*Siaradwn Gymraeg*
*A safwn fel Craig*
*Mewn iaith hoff ein tadau*
*Hir oes i'r Gymraeg.*

DIOLCH I BAWB AM NOSON GWERTH CHWEIL......

*Alwen Green*







Faint ydych chi'n ei wybod am Gymru?  Bydd cwestiynau ym mhob rhifyn.  Mae'r atebion ar waelod tudalen 6!

1. Sawl Prif Weinidog sydd wedi bod yng Nghymru (Arweinydd Llywodraeth Cynulliad Cymru)?  Enwch nhw!

2. Pa fardd oedd yn cael ei adnabod fel Bardd yr Haf?

3. Ym mha flwyddyn ddaeth Caerdydd yn brifddinas Cymru?

4. Syniad pwy oedd Urdd Gobaith Cymru?

5. Pa dri o'r llefydd hyn sydd ddim ar bwys y môr? Aberystwyth, Aberdâr, Aberhonddu, Abermaw, Abergwyngregyn, Abertyleri ac Abertawe.



# Holi Sara Borda Green



1. Dyweda ychydig am dy gefndir.
Ces i fy ngeni yn Nhrevelin 25 mlynedd yn ôl. Ar ôl gorffen Ysgol Uwchradd mi es i i Fuenos Aires i astudio'r Cyfryngau. 'Nes i orffen y pynciau y llynedd, a rwan dw i'n gweithio ar draethawd hir i gael y radd. Symudais i nôl i Drevelin eleni, a dw i'n gweithio yn Ysgol Gymraeg Trevelin ac yn Ysgol Saesneg Southland. Weithiau, dw i'n neud gwaith llawrydd i Buenos Aires. Does gen i ddim syniad am be fydd yn digwydd gyda fi flwyddyn nesa, ac mae hynny'n gyffrous.

2. Disgrifia ddiwrnod cyffredin i ti ym Mhatagonia.
Dydd Llun: deffro, cael brecwast, agor y gliniadur a'r llyfrau, a gweithio ar y traethawd ar gyfer y coleg. Cael cinio yn gynnar, rhwng 12.30 a 1 o'r gloch i baratoi dosbarthiadau Cymraeg a Saesneg. Am 3.30 cychwyn i'r Ysgol Feithrin a dod nôl adre am 6 i gael paned o de. Dw i jyst wedi dechrau chwarae hoci, felly dw i'n hyfforddi am ddwy awr. Pan dw i'n dod adre dw i'n (cael cawod, wrth gwrs yn gyntaf!) mynd ar-lein eto am chydig i siarad â ffrindiau, darllen blogiau, ayb, cyn cael swper. Chydig o deledu falle, a wedyn, nos da.

3.Pa dri pheth allet ti ddim gwneud hebddyn nhw?
-Gliniadur, treinyrs cyfforddus a chlipiau i'r gwallt

4.Pwy, yn y gorffennol neu yn yr oes bresennol, sydd wedi dylanwadu fwyaf arnot ti, a sut?
Mmm, cwestiwn anodd. Sut alla i wbod yn iawn? Falle Iesu, dw i'n darganfod pethau defnyddiol trwy'r amser.

5. Pa un yw diwrnod pwysicaf dy flwyddyn?
Eleni: diwrnod y mae coleg yn anfon ebost i ddweud bod y traethawd yn iawn a dw i wedi gorffen! Mis Tachwedd, mae'n debyg.

6. Pwy yw dy arwr ym Mhatagonia?
-Alla i ddweud dau? RJ Berwyn, fy hen hen daid, a Fred Green, fy nhaid. Y ddau ar gyfer eu gweledigaeth hir-dymor, eu cariad at yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth yn gyffredinol.

7. Beth sy'n gwneud i ti chwerthin?
Bron popeth, dw i'n chwerthin yn aml iawn! I ddweud y gwir, dw i angen chwerthin. Os dw i ddim, mae'n golygu bod rhywbeth o'i le. (Ond, ar ôl dweud hynny, mae plant Ysgol Feithrin yn arbennig o dda i neud y job).

Yn fyr, dy hoff:
Lyfrau - Dw i ddim yn gallu dewis llyfrau, ond dw i'n gallu dewis un cylchgrawn: 'Orsai'
Emyn – 'Mighty to save' - Hillsong
Darn o gerddoriaeth - 'Te largas a reír en tus comisuras' - Soda Stereo
Ffilm – 'The lion, the witch and the wardrobe', 'Pirate radio', '500 days with Summer', etc.
Rhaglen radio a theledu – 'Gok's Fashion Fix' a 'Visión 7 Internacional' (los extremos)
Lle (un yng Nghymru ac un ym Mhatagonia) – Cymru: Llyn Tegid, Y Bala.
Patagonia: Y Paith
Gair – glesni
Taith - Dwyrain Canol
Bwyd - unrhywbeth dw i ddim wedi trio erioed
Enw – Sara Borda Green



## Mwynhau gwyliau`r haf.............



**Diana Jenkins:**

Fues i mewn sawl lle dros y gwyliau. Es i i'r Parc Cenedlaethol gyda Noe a ges i asado gyda hi, Katia a fy wyres Arwen. Fwyton ni ormod! Fuon ni'n bwyta a nofio ar lan y llyn. Fues i'n Cholila hefyd ac roedd llawer iawn o bobl yno. Hefyd, ro'n i wedi mynd i Rosario achos mae fy merch Katia yn byw yna. Wedyn dim ond gweithio yn y tŷ.....................



**Marina Cid**

Fues i ym Mhorth Madryn dros yr haf. Aeth Victoria a fi gyda ffrind – Fernanda ydy ei henw hi a Celina ydy enw ei merch. Gyrrais i'r holl ffordd a chyrhaeddon ni tua 5 o'r gloch yn y p'nawn. Arhoson ni mewn fflat ger y traeth. Dim ond dau sgwâr i ffwrdd oedd y traeth felly cerddon ni bob p'nawn yna. Roedd y tywydd yn boeth ac roedd y merched yn hapus dros ben. Fuon ni'n bwyta mewn sawl bwyty. Rwyt ti'n gallu bwyta bwyd y môr ym Mhorth Madryn ond dw i ddim yn hoffi bwyd y môr felly ces i gig oen efo tatws - fy hoff fwyd!!



**Silvia Williams**

Dros yr haf, aethon ni yn y car o gwmpas yr ardal. Aethon ni ar wyliau traddodiadol yn Nhalaith Chubut. Aethon ni i i Ŵyl yr Asado yn Cholila wedyn aethon ni i Ŵyl Drenau yn El Maitén. Mwynheuon ni fwyd blasus, organig, prynais i grefftau a chlywais i bobl yn canu ac yn dawnsio gwerin. Roedd y tywydd yn boeth iawn gyda llawer o haul a chawson ni amser arbennig o dda.

## Amy Dolben - ein gwirfoddolwraig weithgar!



Amy ydw i. Dw i'n dod o Gymru; dw i'n byw yng Nghaerdydd. Dw i wedi dysgu Cymraeg, ac astudiais i Gymraeg ar gyfer Lefel A, yn yr ysgol. Gorffenais i ysgol llynedd, a dw i'n mynd i Brifysgol Caergrawnt ym mis Hydref i astudio 'Anglo-Saxon, Norse and Celtic'. Dw i'n gweithio mewn caffi, mewn siop yng Nghaerdydd ar y penwythnos, a dw i'n gwirfoddoli yn yr amgueddfa yng Nghaerdydd. Yma, yn yr Andes, dw i'n helpu gyda gwersi Cymraeg, a dw i wedi ymweld â'r Parc Cenedlaethol, Chile, Bariloche a dw i wedi mynd ar La Trochita. Dw i'n mynd i'r Gaiman cyn bo hir i helpu yno hefyd.

# Cwrs Haydn Hughes



Newydd ddechrau'r tymor oeddan ni'n Esquel a Threvelin pan gawson ni'r newydd da:Tiwtor o'r Hen Wlad yn dod i hyfforddi'r tiwtoriaid lleol!! Pawb yn hapus a chyffrous, hyd yn oed bobl Y Gaiman yn rhoi gair da amdano.
Dechreuwyd y cwrs ar y cyntaf o Ebrill, roedd pawb yn yr ardal yn mwynhau gwyliau Pasg a'r tywydd yn fendigedig.
Cyflwynwyd Haydn Hughes gan Clare; roedd Haydn, tiwtor profiadol o Brifysgol Bangor wedi dod i Batagonia i dreulio wythnos yn ein plith.



Roedd tua deuddeg person yn awyddus i wrando ar yr athro tra'r oedd mate yn mynd o gwmpas y neuadd.
Cafwyd tasg i adnabod ein gilydd a gorfod dangos faint o Gymraeg oedd gan bob un ohonom. Trosglwyddodd Haydn ei wybodaeth drwy ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau a thasgau. Llwyddodd wneud i ni siarad, darllen, chwarae, gwrando a chystadlu; hyd yn oed dysgu Basgeg a chynnig tasg i ymarfer yr eirfa newydd!
Trodd y cwrs yn ddwysach o sesiwn i sesiwn gydag ymarferion effeithiol a diddorol ac hefyd o ddifri. Cafodd y cwrs ei gau efo swper yn Fitzroya a phawb yn mwynhau sgwrs a blasu'r pizzas, gyda digon o win a chwrw.



Chawson ni erioed gwrs mor ddwys a defnyddiol â hwn yn yr Andes. Yn sicr, bydd y wybodaeth a'r llawlyfr gramadeg gawson ni yn gwella'r iaith ac yn rhoi mwy o hyder i'r tiwtoriaid, a'r dysgwyr fydd ar eu hennill yn y diwedd.
Cafwyd profiad anhygoel wrth gydweithio mewn grwpiau efo pobl Trevelin ac Esquel efo'i gilydd.
Diolch o galon i Haydn Hughes am yr amser gwych a dreulion ni'n ei gwmni!

*Gladys Jones*

Atebion:

1. Tri – Alun Michael, Rhodri Morgan a Carwyn Jones
2. R. Williams Parry
3. 1955
4. Syr Ifan ab Owen Edwards
5. Aberdâr, Aberhonddu ac Abertyleri.

## 'Encuentra Patagonia Céltica' yn 'Estancia La Paz'

Cynhaliwyd Gŵyl Geltaidd mewn lleoliad delfrydol ar Estancia La Paz Trevelin ar ddydd Sadwrn yr ail o Fawrth eleni. Trefnwyd y digwyddiad gan Gymdeithas Patagonia Céltica gyda chymorth parod Swyddfa Ddiwylliant Talaith Chubut – Trevelin, Esquel, Lago Puelo, Y Gaiman a Comodoro Rivadavia a swyddfa dwristiaeth Esquel a Threvelin. Mae`r gymdeithas yn ddiolchgar iawn hefyd i fusnesau lleol am eu cefnogaeth parod er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn un llwyddiannus.

Dechreuodd y gweithgareddau am 15:30 dan arweiniaid broffesiynol Diana Owen a deithiodd yn arbennig o'r Gaiman er mwyn cymryd rhan yn y digwyddiad. Ymysg y rhai a gymerodd ran yr oedd Ensamble Arcos de Trevelin, Agrupación Biosbardos del Centro Gallego de Comodoro Rivadavia (canu a dawnsio o Galicia), Erin (grŵp o ddawnswyr o Lago Puelo), Arann (cerddoriaeth Geltaidd), Tros y Môr (Marcelo Griffiths, Caren Jones a Juan Barrena o'r Gaiman), Vincent Evans, corau lleol, Jesica Arregui (dawnswraig Albanaidd o Fuenos Aires) a Keltand (y teulu de Oro). Ar ôl diweddglo dramatig, daeth y digwyddiad i ben tua 22:30.

Bu`r Ŵyl yn llwyddiant ysgubol, yn wledd i'r glust a`r llygad. Dw i'n siŵr bod pob un ohonom yn edrych ymlaen at yr Ŵyl nesaf a fydd yn cael ei gynnal ar Fawrth y 1af a'r 2ail yn 2014. Pob dymuniad da gyda'r trefniadau.





## Y tro cyntaf es i i gyngerdd roc



Fydda i byth yn anghofio y dydd hwnnw. Ro'n i'n un deg pump mlwydd oed ac ro'n i'n gwrando ar gerddoriaeth pync-roc, achos ar y pryd yn yr Ariannin, doedd o ddim mor boblogaidd ag ar hyn o bryd. Roedd o'n cŵl iawn!

Felly, un dydd clywais i ar y radio y basai NOFX yn dod yma.

Yn gynta, gofynais i fy mam os allwn i fynd i'r cyngerdd roc gyda fy ffrindiau i.

Rhoddodd hi ganiatâd i fi ac wedyn prynodd hi y tocyn i fi.

Ond ar ddydd y cyngerdd, gwastraffodd y ffrindiau aeth gyda fi lawer o amser yn llungopio pamffledi cyn mynd i'r cyngerdd fel ein bod ni wedi cyrraedd yn hwyr!

*Ludmila Melnik*

# Fy nhrydydd tro yng Nghaerdydd



Pan fues i yng Nghaerdydd y tro cyntaf roeddwn i'n teimlo bod y ddinas yn llawn hud. Roedd popeth yn newydd i fi, wrth gwrs. Dyna pam, mae'n bosib.  Roeddwn i'n synnu achos roedd y ddinas fawr yn arogli o flodau, a roedd ei pharciau yn rhyfeddol, ond doedd dim ots,  fy nhro cyntaf oedd.

Yr ail dro ces i gyfle i nabod popeth yn well: y Bae, canol y ddinas gyda ei strydoedd a'i siopau; Llandaf, ble roeddwn i'n byw y tro yna, gyda ei Eglwys Gadeiriol; yr Eglwys Newydd, Rhiwbeina, ayyb. Roeddwn i'n dal i feddwl fod Caerdydd yn ddinas ddewinol.



Ond y trydydd tro yma dw i wedi cadarnhau fy amheuon. Mae Caerdydd yn hudol a lledrithiol. Y tro yma adnabyddais i wyneb arall o Gaerdydd, yn hollol wahanol.

Roeddwn i'n byw yn Grange Town, ac i fynd i'r Brifysgol roedd rhaid i fi groesi'r afon a cherdded ar bwys Stadiwm y Mileniwm. Roeddwn i'n cerdded pob dydd a roeddwn i'n gweld y Stadiwm, mawr, pert, diddorol.

Ond un diwrnod roedd y Stadiwm yn wahanol. Un diwrnod roedd y Stadiwm yn fyw.



Doedd hi ddim yn unrhyw ddiwrnod, wrth gwrs, roedd hi'n ddiwrnod arbennig. Roedd gêm olaf Pencampwriaeth y Chwe Gwlad. Y gêm olaf, ac roedd y gêm rhwng Cymru a Lloegr.

Roedd hi'n Ddydd Sadwrn, ac o'r bore roedd pawb yn gwisgo rhywbeth coch. Es i i ganol y ddinas y bore 'na a dwedodd Siani cyn i fi fynd "Rhaid i ti wisgo rhywbeth coch neu bydd pobl yn meddwl dy fod ti'n Saes".

Yn y prynhawn aethon ni i "Nos Da", y dafarn sydd gyferbyn y Stadiwm i ddathlu pen-blwydd Juliette ac i weld y gêm ar y sgrin fawr. Roedd y gêm yn dechrau am bump. Cyrhaeddon ni'r dafarn ac roedd rhaid i fi afael yn gryf yn llaw Siani i beidio â'i cholli hi. Gyda chymaint o bobl yn y dafarn roedd yn anodd iawn, bron yn amhosib â dweud y gwir, gwneud un cam. Doeddwn i ddim yn gallu gweld y sgrin o gwbl.

Roedd hi'n bwrw glaw ac roedd hi'n oer iawn ond doedd neb yn sylweddoli'r peth. Yn sydyn, gweiddiodd pawb yn y dafarn, ac ar yr stryd, ac ar yr un pryd rhuodd un anifail, yn gryf iawn, ac ysgwydodd y tir. Pa fath o anifail oedd yn gallu symud y tir gyda ei lais? Y ddraig?



Roeddwn i'n trio deall popeth oedd yn digwydd, pam roedd pawb mor llawen, ac eto, rhuodd yr anifail eto, ac eto, ac eto. Sylweddolais i fod y Stadiwm yn fyw, ac roedd e'n dathlu pob tro roedd Cymru yn sgorio. Roedd e'n fyw ac yn hapus iawn. Roedd yn rhuo o lawenydd.

Y diwrnod yna, Dydd Sadwrn 16eg o fis Mawth 2013, enillodd Cymru 30-3 yn erbyn Lloegr. Roedd yn fuddugoliaeth hanesyddol i Gymru, ac roedd yn ddiwrnod hanesyddol i fi, achos gwelais i a chlywais i Stadiwm y Mileniwm yn fyw. Mae Caerdydd yn hudol a lledrithiol, dw i'n siŵr.

*Liliana Melnik*

Dyma flas ar rai o'r gweithgareddau………

# Menter PATAGONIA

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun | Clwb Ti a Fi Esquel | 16:30—17:30 |
| | Clwb Plant Esquel | 19:15-20:00 |
| Dydd Mawrth | Dawnsio Gwerin Trevelin | 19:00-20:00 |
| Dydd Mercher | Clwb Darllen Esquel | 10:30-11:30 |
| Dydd Iau | Clwb Plant Trevelin | 18:30-19:30 |
| Dydd Gwener | Clwb Siarad yn Serenata Esquel | 15:00-16:00 |

*Yn ogystal, mae prosiect cyffrous iawn ar y gweill-Rhaglen Radio 'Ysgol Gymraeg Trevelin' yn ogystal â rhaglen 'Mawl a chân' ar y Sul. Mwy o wybodaeth i ddilyn!*

*Os oes gennych chi syniad am glwb, neu os oes gennych chi syniad am weithgareddau misol yn Esquel/Trevelin, peidiwch ag oedi rhag cysylltu ag Eluned!*



## Jôcs!



Beth mae props tim rygbi Cymru yn cael i frecwast cyn gêm? *Wyau wedi sgrym-blo!*

Beth gewch chi wrth groesi cangarŵ gydag eliffant? *Tyllau mawr yn Awstralia!*

Sut mae pedwar asyn yn mynd am dro yn yr injan dân? *Dau yn y blaen, un yn y cefn ac un ar ben y to yn dweud i-o, i-o, i-o!*

## Geirfa

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hwylus | Divertido | Traethawd | Ensayo/tesis | Gliniadur | Computadora portátil |
| O bob lliw a llun | De todo tipo y color | Gweledigaeth | Visión | Rhuo | Gruñir |
| Brwdfrydig | Entusiasta/ entusiasmado | Gwirfoddoli | Trabajo voluntario | Llwyddiant | Éxito |
| Ymwelwyr | Visitantes | Profiadol | Experimentado | Ysgwyd | Temblar |
| Moethus | Lujoso | Amrywiaeth | Variedad | Dathlu | Festejar |
| Prif Weinidog | Primer Ministro | Asyn | Burro | Eglwys Gadeiriol | Catedral |
| Bardd | Poeta | Anhygoel | Increíble | Gweithgaredd | Actividad |
| Y cyfryngau | Los medios | Gradd | Grado | | |

# Cystadleuaeth

Ydych chi am ennill gwobr gwerth chweil? Y cyfan sydd yn rhaid i chi'i wneud yw dyfalu pwy yw'r babi/plentyn/person ifanc!!!!! Maen nhw i gyd yn byw yn Esquel ac yn Nhrevelin a dyna i gyd yr wyf i'n ei ddweud! Anfonwch eich atebion at Eluned erbyn diwedd mis Mai. Pwy 'di pwy?




1.



2.



3.



4. Y brawd a'r chwaer?



5. Y ferch fach?



6.



7.



8.



9. Y brawd a'r chwaer?